


West Williamston/Caeriw

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



West Williamston/Caeriw

Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 3.8 milltir (6.1 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth Caeriw 360/361.

Cyfeirnod map: SN042046

Mae pwll melin Caeriw ynghyd â'r felin a'r castell sy'n edrych allan drosto, yn un o hoff leoliadau pobl yn Sir Benfro. Rhoddwyd pŵer Afon Caeriw ar waith gryn amser yn ôl i falu ŷd - mae yna dystiolaeth i ddweud bod yna felin yng Nghairew mor gynnar â 1542.

Fwy na thebyg bod y felin bresennol, a elwir yn Felin Ffrengig, yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif. Credir bod ei henw'n cyfeirio at y cerrig Ffrengig a ddefnyddiwyd i wneud ei meini melin.

Cymerodd y Normaniaid awenau De Sir Benfro yn gyntaf ar ddiwedd yr 11eg ganrif.

Strwythur o bridd a phren oedd castell cyntaf Caeriw, ond yn ddiweddarach, fe ddaeth adeilad o gerrig yn ei le.

Ychwanegwyd ochr gogleddol coeth y castell, gyda ffenestri sy'n edrych allan dros bwl y felin, yn yr 16eg ganrif, ac mae'n rhoi ychydig o ymddangosiad maenordy Elisabethaidd i'r hen amddiffynfa.

Mae Afon Caeriw yn rhan o'r patrwm ymganghennog o gillfachau wrth galon Sir Benfro o amgylch y Daugleddau sy'n ria glasurol, sef cyfres o gymoedd afon a ffurfiwyd cyn yr Oes lâ diwethaf, ac yna a "foddwyd" wrth i lefelau'r môr godi.

Heddiw, mae'r ddyfrffordd yn dawel ac mae ei fflatiau mwd a'i forfeydd heli yn gynefin perffaith i rhydwyr ac

adar gwyllt ac mae yna siawns hefyd y gwelwch chi grëyr a glas y dorlan. Ym mis Gorffennaf ac Awst efallai hefyd y gwelwch chi'r brithribin brown prin, sef pili-pala bach cain gydag oren o dan ei adenydd; fwy na thebyg y gwelwch chi'r pili-pala yma yn agos at gloddiau o ddraenen ddu, oherwydd mae'n dodwy ei wyau ar ddail y coed.

Roedden nhw'n chwarelu cerrig calch yn Sir Benfro ers canrifoedd, llawer ohono i'w brosesu i mewn i'r calch yr oedd ffermwyr yn ei ddefnyddio ar eu caeau ac i wneud mortar. Gweithiwyd chwarelau Williamston wrth ymyl y dŵr ble yr oedden nhw'n gorlifo pan fyddai'r llanw'n uchel gan alluogi cychod camlas i gael eu tynnu i mewn a'u llwytho gyda cherrig.

Mwy o wybodaeth: caeau a da byw.

